Papur y Bwrdd

SWYDDOGOL - SENSITIF

10 Chwefror 2015

Teitl y Papur:	Rhanbarthau Draenio Mewnol – Ardrethi ac Ardollau 2015/16
Cyfeirnod y Papur:	**CNC B B 7.15**
Noddwyd y Papur gan: **Paratowyd y Papur gan:**	Kevin Ingram – Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol Mark Howells – Partner Busnes Cyllid, Gwasanaethau Cenedlaethol

Pwrpas y Papur:	Darparu Praeseptau, Ardrethi Draenio ac Ardollau Arbennig arfaethedig i'r Bwrdd ar gyfer 2015/16
Argymhelliad:	Cymeradwyo'r ardrethi arfaethedig
Angen Penderfyniad:	Oes

Effaith: Noder – efallai na fydd pob pennawd yn berthnasol i'r pwnc	**Effaith ar yr Amgylchedd:** Mae rheoli dŵr yn effeithiol yn lleihau risg llifogydd a gall gynnal bioamrywiaeth gwlyptiroedd a gwerthoedd tirweddau. **Effaith ar yr Economi:** Mae defnydd effeithiol o'n hadnoddau yn sicrhau ein bod yn dangos gwerth am arian i'r cymunedau yr ydym yn codi tâl am ein gwasanaeth. **Effaith ar y Gymuned:** Mae Risg Llifogydd yn cael ei leihau sy'n diogelu eiddo a busnesau. **Effaith ar Wybodaeth:** Amherthnasol.

Pwnc

1. Ceisio cymeradwyaeth y Bwrdd i godi:

   (i) Praeseptau ar Ranbarthau Draenio Mewnol sy'n cael eu gweinyddu gan Cyfoeth Naturiol Cymru (£45,000);

   (ii) Ardollau Arbennig (£100,000) ac Ardrethi Draenio (£52,000) ar RhDMau sy'n cael eu gweinyddu gan Cyfoeth Naturiol Cymru;

   (iii) Praeseptau ar Fyrddau Draenio Mewnol (BDMau) nad ydyn nhw'n cael eu gweinyddu gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Y rhain yw BDM Cil-y-coed a Gwynllŵg, BDM Powys a BDM Gwy Isaf (£254,000).

Crynodeb

2. Mae'r papur hwn yn gofyn am gymeradwyaeth y Bwrdd i Braeseptau, Ardrethi Draenio ac Ardollau Arbennig ar gyfer 2015/16. Gan fod y sefydliad yn canolbwyntio ar effeithlonrwydd a'r angen i sicrhau gwerth am arian i'r rhai y codir tâl arnynt, cynigiwyd peidio codi ardrethi 2014/15.

Cefndir

3. Mae un ar ddeg o Ranbarthau Draenio Mewnol (RhDMau) wedi'u lleoli yng Ngogledd-orllewin Cymru. Mae'r gwaith a wnaed ym mhob RhDM yn cael ei gyllido drwy gyfuniad o Ardrethi Draenio sy'n cael eu codi ar feddianwyr tir amaethyddol ac Ardollau Arbennig sy'n cael eu talu gan Awdurdodau Lleol mewn perthynas â thir anamaethyddol. Mae CNC yn gweithredu fel y BDM ar gyfer y rhanbarthau hyn.

4. Mae pob BDM yn gosod cyllideb ar gyfer y gwaith sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod ac unrhyw fuddsoddiadau y mae ei angen i wneud ar gyfer prosiectau yn y dyfodol. Mae CNC yn codi Praesept ar bob BDM am waith a wnaed sydd o fudd iddyn nhw.

5. Mae Byrddau Draenio Mewnol (BDMau) yn gweinyddu draenio tir, rheoli risg llifogydd a swyddogaeth bioamrywiaeth yn y Rhanbarthau Draenio Mewnol. Mae tri BDM yng Nghymru sy'n cael eu llywodraethu ar wahân i CNC ar hyn o bryd.

6. Ym mis Tachwedd 2013 penderfynodd y Gweinidog drosglwyddo swyddogaethau, staff ac asedau'r tri Bwrdd Draenio Mewnol yn gyfan gwbl neu'n rhannol yng Nghymru i Cyfoeth Naturiol Cymru. Daw hyn i rym ar 1 Ebrill 2015. Bydd y tri Bwrdd Draenio Mewnol yn llunio'r rhaglenni gwaith a'r Ardrethi Draenio ac Ardollau Arbennig cysylltiedig ar gyfer 2015/16 y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn eu hetifeddu. Mae'r rhaglenni gwaith hyn yn cael eu paratoi mewn trafodaeth fanwl â Cyfoeth Naturiol Cymru.

7. Yn dilyn Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, nid oes gan Bwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd Cymru (PRhPLlC) y pŵer i weithredu fel BDM. Tra nad oes gan Bwyllgor PRhPLlC swyddogaeth ffurfiol yn y gwaith o reoli'r RhDMau, gofynnir iddyn nhw ddarparu sylwadau a chyngor i'r Bwrdd mewn perthynas â'r broses o osod y

gyllideb a'r rheoli parhaus. Cyflwynwyd y cynigion hyn i Bwyllgor PRhPLIC ar 16 Ionawr 2015. Bydd diweddariad ar eu sylwadau yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod.

8. Mae angen i Cyfoeth Naturiol Cymru (drwy adran 40 o Ddeddf Draenio Tir 1991) lunio Ardrethi Draenio, a thrwy Reoliad 7 o Reoliadau Byrddau Draenio Mewnol (Cyllid) 1992 codi Ardollau Arbennig cyn 15 Chwefror o'r flwyddyn ariannol cyn y flwyddyn maen nhw'n cyfeirio ati.

9. Fel mesur o reolaeth gaeth ar gostau yn CNC, nid oes yr un o'r trethi arfaethedig yn codi o'r flwyddyn flaenorol.

Cynigion a Chamau Nesaf

Cynigion

10. **Praeseptau**

- Mae Atodiad A yn manylu ar y Praeseptau arfaethedig ar gyfer 2015/16 a'r gymhariaeth â'r flwyddyn flaenorol, sy'n gyfanswm o £298,000.
- Ni chynigir newid y Praeseptau cyfredol o gwbl.

11. **Ardollau Arbennig ac Ardrethi Draenio**

- Mae'r tabl isod yn darparu manylion o'r Ardollau Arbennig (£99.8k) a'r Ardrethi Draenio (£52k) sy'n cael eu cynnig ar gyfer 2015/16 o'i gymharu â 2014/15.
- Ni chynigir newid Ardollau Arbennig neu Ardrethi Draenio o gwbl.

RHANBARTH DRAENIO MEWNOL	Y GYFRADD ARDRETHI DRAENIO MEWN CEINIOGAU		ARDOLLAU ARBENNIG		AWDURDOD LLEOL
	2014/15	2015/16	2014/15	2015/16	
Afon Ganol	5.4	5.4	7,900	7,900	Conwy
Cors Ardudwy	12.8	12.8	10,044	10,044	Gwynedd
Cors Borth	31.7	31.7	7,476	7,476	Ceredigion
Afon Conwy	18.9	18.9	14,141	14,141	Conwy
Dyffryn Dysynni	21.5	21.5	8,811	8,811	Gwynedd
Glaslyn/Pensyflog	6.7	6.7	18,487	18,487	Gwynedd
Harlech/Maentwrog	9.0	9.0	18,186	18,186	Gwynedd
Llanfrothen	23.8	23.8	1,380	1,380	Gwynedd
Cors Malltraeth	19.9	19.9	1,850	1,850	Ynys Môn
Mawddach Wnion	5.6	5.6	11,095	11,095	Gwynedd
Tywyn	9.7	9.7	380	380	Gwynedd
Cyfanswm					

Camau Nesaf

12. Mae'r Bwrdd yn ystyried ac yn cymeradwyo'r cynigion yn yr adroddiad hwn ac yn awdurdodi selio'r Ardrethi Draenio. Mae rhybuddion ffurfiol yn cael eu dosbarthu erbyn 15 Chwefror 2015 er mwyn cydymffurfio â'n hymrwymiadau statudol ar gyfer Ardollau Arbennig a Phraeseptau. Mae'r Ardrethi Draenio yn cael eu hysbysebu er mwyn cydymffurfio â Deddf Draenio Tir 1991 ac mae rhestrau yn cael eu hanfon at bob trethdalwr gyda'r biliau.

Risgiau

13. Os nad yw'r Praeseptau, yr Ardrethi Draenio a'r Ardollau Arbennig yn cael eu cymeradwyo, yna ni fyddwn yn cwrdd â dyddiadau cau statudol.

Goblygiadau Ariannol

14. Bydd cymeradwyo'r cynigion yn y papur hwn yn caniatáu casglu incwm, sy'n cael ei ddefnyddio i gyllido gwaith uniongyrchol.

Cyfathrebu

15. Bydd hysbysiadau ffurfiol yn cael eu dosbarthu i awdurdodau lleol a Byrddau Draenio Mewnol.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA)

16. Cwblhawyd Sgriniad Cychwynnol, a ddangosodd nad oes angen cynnal Asesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y cynigion yn y papur hwn.

Atodiadau

Atodiad A – Cynigion Praeseptau 2015/16

ANNEX A

Natural Resources Wales

Precept Proposals 2015/16

Narrative	Precept 2014/15 £'s	Precept Proposal 2015/16 £'s
Internal Drainage Board		
Lower Wye	3,604	3,604
Caldicot & Wentlooge	240,000	240,000
Powysland	10,320	10,320
Total Drainage Boards	**253,924**	**253,924**
Internal Drainage Districts		
Afan Ganol	2,305	2,305
Ardudwy Marsh	3,864	3,864
Borth Bog	2,595	2,595
Afon Conwy	6,873	6,873
Dysynni Valley	2,879	2,879
Glaslyn/Pensyfloc	9,123	9,123
Harlech & Maentwrog	7,672	7,672
Llanfrothen	1,344	1,344
Malltraeth Marsh	3,179	3,179
Mawddach Wnion	4,400	4,400
Tywyn	378	378
Total Drainage Districts	**44,612**	**44,612**
Total Drainage Boards and Districts	**298,536**	**298,536**